**CYNGOR CYMUNED FFLUR YSTRAD**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL,**
**NOS IAU 21/01/2016 AM 7.00PM**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**

**1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol**
Croesawodd y Cyng Doug Rowbotham bawb i'r cyfarfod.
Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod y Cyng Alun Price-Jones yn gwella ar ôl ei lawdriniaeth diweddar.

**2. YN BRESENNOL**
Y Cynghorydd Doug Rowbotham (Cadeirydd); Clare Hughes (Is-Gadeirydd); Y Gyng Angharad Jones; Y Gyng. Mair Jones; Y Cyng. Non Jones; Y Cyngh. Cymunedol a Sirol Ifan Lloyd-Davies; Y Cyng. Alun Price-Jones, y Cyng. Gareth Owen; Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans, Eleri Thomas (Clerc).
**Aelodau o'r Cyhoedd:** Mr Merfyn Botwood; Sonia Fletcher; Jean Williams (yn ystod yr awr gyntaf).

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y
Cyng. John Jones, Cyng Wil Lewis, Mrs Wilma Rush a Mr Bill Messer.

**4. MATERION HEDDLU**
Dywedodd y John Evans nad oedd materion o bwys i'w hadrodd.
Roedd lladrad yn ymwneud â Ffermydd wedi cymryd lle yn y cyffiniau.

**5. DATGANIAD O DDIDDORDEB**
Dim wedi eu datgan.

**6. COFNODION Y CYFARFOD O'R 19 Tachwedd, 2015**
Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir heblaw am y canlynol:
Cofnod 7.8: Bu i'r Cyng Gareth Owen a'r Cyng Doug Rowbotham ddarllen enwau'r hynny a syrthiwyd yn ystod Gwasanaeth Sul y Cofio o'r 8fed Tachwedd, 2015.
Llofnodwyd y Cofnodion gan y Cadeirydd.

**7. MATERION YN CODI**
**7.1 PRAESEPT 2016-17:** Trafodwyd Y Gyllideb am y Flwyddyn Ariannol nesaf yn helaeth (Atodiad 1). Cynigiodd y Cyng Ifan Lloyd Davies y dylai'r Praesept aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol sef
£7,070. (Eiliwyd gan y Gyng Angharad Jones). Cynigiodd y Gyng Clare Hughes y dylai'r Praesept ei gynyddu 1%. PENDERFYNWYD peidio â chynyddu'r Praesept (4 PLEIDLAIS-CADW'R UN PETH; 3 PLEIDLAIS - ei GYNYDDU GAN 1%; UN YMATAL)
**7.2 Cerbyd Wedi ei barcio ger yr afon:** Cysylltwyd â'r Adran Gynllunio Cyngor Sir Ceredigion i sefydlu os oes caniatad i barcio cerbyd yn y lleoliad hwn am gyfnod hir (ger Ystafell Wen). Derbyniwyd ymateb gan Mr Huw Davies yn nodi ei fod wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned ar yr 16 Mai 2015 i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y cerbyd. Mae'n darllen, "….. ymwelais â'r safle yr wythnos ddiwethaf a dod o hyd i gar glas wedi ei barcio ar yr hyn yr wyf yn tybio i fod y safle yr ydych yn cyfeirio ato yn eich llythyr. Rwyf wedi nodi y ffaith bod y tirfeddianwyr yn datgan eu bod wedi bod yn defnyddio y tir hwn fel rhan o'u gardd ar gyfer rhyw 28 o flynyddoedd. Tybed a all Cynghorwyr gadarnhau'r ffaith yma oherwydd er nad yw

caniatâd cynllunio o bosibl wedi ei roi ar gyfer y defnydd o'r tir, os yw wedi bod yn rhan o'u "cwrtil" am dros 10 mlynedd, yna mae'r defnydd yn gyfreithiol ac ni allaf gymryd unrhyw orfodaeth gweithredu, hyd yn oed os byddai'r Awdurdod yn awyddus i wneud hynny "

**PENDERFYNWYD** yn ystod y cyfarfod blaenorol i adael y mater ar y bwrdd. Dywedodd y Cyng Non Jones yn ystod y cyfarfod hwn bod y car wedi ei barcio rhwng dau lwybr cyhoeddus. PENDERFYNWYD cysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn os oes car wedi ei barcio ar dir cyffredin gyda'r posibilrwydd o rwystro llwybr cyhoeddus beth yw'r obligiadau cyfreithiol a chwrs o weithredu, y dylai'r Cyngor Cymuned gymryd?

**7.3 Ysgoloriaeth Ysgol y Bont:** ateb gan Mr Chris Hywel Macey, Pennaeth Gwasanaethau Dysgu Cyllidol ar y 26/11/2014 yn datgan, "Rydyn ni wedi chwilio'r archifau yn ôl cyhyd â 1998 heb ffeindio bod unrhyw daliad allan o'r gronfa. Roedd y gronfa yn derbyn llog ar yr arian oedd ynddi tan 2009, ond gyda chyfradd Banc Lloegr mor isel, does dim incwm i'r gronfa ers hynny. Ar hyn o bryd mae £459.02 yn y gronfa."

Meddylid mai £100 oedd swm gwreiddiol yr Ysgoloriaeth.

**PENDERFYNWYD yn ystod cyfarfod cynt i** gysylltu â Mr Macey unwaith yn rhagor i ofyn ble yn union y mae'r arian wedi ei gadw, paham nad oes unrhyw daliad wedi ei wneud ers 1998 a tybed a fyddai'n bosibl trosglwyddo'r arian i ofal y Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd ateb gan Mr Macey ar y 30.3.2015 sef

1. "Mae'r arian yn cael ei gadw ym mhrif gyfrif banc y Cyngor Sir, ond wedi ei neilltuo yn y cyfrifon ledjer.
2. Nid ydym wedi cael unrhyw gais i dalu allan o'r gronfa ers cyn 1998.
3. Rydw i wedi gofyn i'r cyfreithwyr am gyngor ynglŷn â throsglwyddo'r arian i'r Cyngor Cymuned ac daw yn ôl atoch pan gaf yr ymateb"

Adroddwyd yn ystod y cyfarfod hwn bod swm o £389.02 wedi ei drosglwyddo i'r Cyfrif Banc Barclays Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyng Clare Hughes, fel llofnodwr ag awdurdod yn gwneud ymholiadau ynghylch sefydlu cyfrif arbennig i drosglwyddo'r arian.

**7.4 Prosiect Gors-y-Ger Cyf:** Cylchlythyr Rhagfyr 2015 a dderbyniwyd gan Mr Bill Messer: Atodiad 2.

**7.5 Draeniau yng nghyffiniau Dolawel, Pontrhydfendigaid:** Draeniau ger Dolawel, Pontrhydfendigaid: derbyniwyd ateb gan y Cyngor Sir yn sôn nad ydynt yn hollol siwr beth yn union yw'r broblem gan nad oes draeniau wedi'u lleoli ger Dolawel. Dywedwyd bod y rhai nesaf i Dolawel, ryw 80 metr i ffwrdd. Bu i'r Cyng Gareth Owen a'r Gyng Mair Jones fynychu Cyfarfod Safle'n ddiweddar o dan gyfarwyddyd Mr Brian Thomas, Adran Briffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion. Bydd y draeniau yn y cyffiniau yn cael sylw, pan fydd adnoddau yn caniatáu i gynnwys yr ardal o Elenydd i Dolawel; y mae problemau hefyd yn gysylltiedig â'r Maes Pêl-droed.

**7.6 Cais gan y WI Bont, yn ystod y cyfarfod blaenorol:** gofynnwyd a ellid ceisio lleoliad addas i blannu coeden er mwyn nodi Canmlwyddiant Sefydliad y WI. Ar ôl ystyriaeth ofalus, penderfynwyd cynnig darn o dir, ar Barc Pantyfedwen, yn ddelfrydol ger y giât fynedfa.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Bwyllgor Neuadd Pantyfedwen, yn ystod y cyfarfod Tachwedd 2015 yn gwrthwynebu'r penderfyniad y Cyngor Gwahoddwyd y Cadeirydd i fynychu'r Cyfarfod Pwyllgor y Neuadd ar ddydd Mawrth 15 Rhagfyr, 2015 i drafod y mater ymhellach. Roedd ymateb wedi'i anfon at y Pwyllgor Neuadd yn amlinellu'r rhesymau paham fod y Cyngor Cymuned wedi gwneud y penderfyniad ac i ymddiheuro am y diffyg cyfathrebu. Gwahoddwyd cynrychiolydd o Bwyllgor y Neuadd i fynychu cyfarfod Ionawr y Cyngor Cymuned i drafod ymhellach. Doedd dim

ymateb ffurfiol wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor Neuadd yn ystod y cyfarfod hwn ond dywedwyd bod y mater bellach wedi ei adael ar y bwrdd.
**7.7 Ymgynghoriad Cyhoeddus: Cyflwyno System Un Ffordd yn Stryd Teifi, Ponthrydfendigiaid:** Derbyniwyd Deiseb yn gwrthwynebu y posibilrwydd o gyflwyno System Unffordd gan Mair Richards, Arwel, Stryd Teifi, Pontrhydfendigaid. (i gynnwys 24 o Lofnodion Atodiad 3). Cefnogwyd y cynnig gan 2 unigolyn sef Richard a Clare Batty, 3 Heol Teifi. **PENDERFYNWYD** amlinellu'r rhesymau paham fod y Cyngor Cymuned Ystrad Fflur wedi cychwyn y drafodaeth. **PENDERFYNWYD** cynnwys y Ddeiseb o fewn Cofnodion Misol y Cyngor Cymuned Ystrad Fflur o'r 21ain Ionawr 2016 ar gyfer defnydd y cyhoedd petai'r angen. Hefyd i ymateb yn ysgrifenedig i'r holl unigolion a gymerodd rhan ac i ddatgan, "oherwydd y gwrthwynebiad cryf **PENDERFYNWYD** peidio â chlustnodi sylw pellach i'r mater."

**8. GOHEBIAETH**
**8.1 Llywodraeth Cymru Menter - Grant Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned.** Mae Llywodraeth Cymru drwy'r Cyngor Sir wedi darparu swm o £500 ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned yng Ngheredigion i ddefnyddio mewn perthynas â datblygu gwefan ar gyfer eu Cyngor. Cafodd y grant, a oedd yn wreiddiol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2013-15 ei ymestyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 gan roi cyfle i'r Cynghorau Cymuned a Thref hynny sydd heb wedi wneud cais hyd yma i wneud hynny. Cwblhaodd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur Ffurflen gychwynnol sef Ffurflen A yn ystod y flwyddyn flaenorol ond nid Ffurflen B i ddangos bod y wefan wedi ei sefydlu neu welliannau a wnaed i Wefan presennol, heb ei chwblhau cyn belled. Y dyddiad cau yw 31/3/2016. Gobeithir manteisio ar y cynnig yn y dyfodol.
**8.2 Cais am Arwydd Dim Ffordd Drwodd** ar gyfer Heol Lisburne, Pontrhydfendigaid: Dywedodd aelod o GSC y bydd ymdrech yn cael ei gwneud i ddarparu arwydd o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol ar yr amod bod adnoddau yn caniatáu. Gosodir yr arwydd ar y gyffordd rhwng Heol Lisburne a'r B4343 fel ei bod yn weladwy i yrwyr cyn iddynt benderfynu troi mewn i Ffordd Lisburne.
**8.3 Un Llais Cymru: Cyfarfod Ardal Ceredigion,** Dydd Mercher 20 Ionawr, 2016 am 7pm yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Pemnorfa, Aberaeron.
**8.4 Gohebiaeth Eraill: Er gwybodaeth yn unig.**
**9. CYLLID**
**9.1 Cyflog y Clerc** Tachwedd & Rhagfyr 2015 £157.10 x 2; Cyllid a Thollau EM £36.56 x2.

**10. CYNLLUNIO**
**10.1 Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar: er gwybodaeth.
**10.2 Dywedwyd bod carafán sefydlog** wedi'i lleoli ar sail barhaol ym Mhenrhiw, Ffair Rhos. **PENDERFYNWYD** cysylltu â'r Adran Gynllunio, Cyngor Sir Ceredigion i sefydlu petai'n cael ei ganiatáu i wneud hynny. Derbyniwyd ymateb gan Mr Huw Williams, Pennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw ar y 13/10/2015, "*Yr wyf wedi dadansoddi'r honiad bod y rheolau wedi eu torri ac mae wedi ei rhoddi yn Nosbarth Blaenoriaeth 2 i ddechrau. Bydd swyddog o'r awdurdod yn ymweld â'r safle yn ystod yr 10 diwrnod nesaf i wneud asesiad cychwynnol a yw'r rheolau cynllunio wedi eu torri ai peidio. Cewch wybod ynghylch yr asesiad cychwynnol yn y 15 diwrnod nesaf ar ôl yr ymweliad safle.* Ar y 18/11/2015 Ysgrifennodd Mr Huw Davies drwy e-bost. "... Rwyf wedi ysgrifennu at berchnogion yn gofyn sut y maent yn cyfiawnhau ei fod wedi ei leoli yno ond cyn belled nid oes ymateb wedi ei dderbyn. Yn sicr nid oes gofnod o ganiatâd wedi ei osod ar gyfer safle carafannau ar gael a tybed a oes

gennych fwy o wybodaeth am y mater hwn. " Dim datblygiadau pellach yn ystod y cyfarfod hwn.

**10.3 Cais Cynllunio Ynghylch Nant-yr-Helyg**: **PENDERFYNWYD** gofyn i Gyngor Sir Ceredigion petai'r cais yn cydymffurfio ag amodau Adran 106 hy newid defnydd amaethyddol i fusnes o fewn 2 flynedd. Derbyniwyd ymateb gan Mr Huw Davies, CSC, yn datgan, "... Tybed pa Adran 106 yr ydych yn cyfeirio ato? Rwyf wedi edrych ar gofnodion cynllunio ac nid yw'n ymddangos bod Adran 106 ar yr eiddo. Yn wir yr unig caniatâd cynllunio allaf ddod o hyd iddo yw un sy'n ymestyn nôl i 2011 pan dynwyd y meddiannaeth amaethyddol. Allech chi fy ngoleuo ar y pwynt hwn? "Cytunodd y Cyng Ifan Lloyd-Davies i drafod y mater gyda Mr Huw Davies. Dim Datblygiadau yn ystod y cyfarfod hwn.

**10.4 Cais Cynllunio A150911:** Cais: Adeiladu estyniad. Lleoliad: Tremafon, Stryd y Bont, Pontrhydfendigaid. Cyngor Cymuned Sylwadau: Dim Gwrthwynebiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Gofynnwyd a gallai aelodau o'r cyhoedd** gymryd rhan mewn trafodaethau yn ystod Cyfarfodydd Misol. **PENDERFYNWYD** gofyn am gyngor gan Un Llais Cymru.

**11.2 Mynegodd yr Aelodau** gonsyrn mewn perthynas â pharcio cerbydau yn ymwneud â'r Garej gyferbyn â'r Neuadd Pantyfedwen, ar dir y Neuadd ac ar y ffordd gyfagos. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r perchennog y garej i ymatal rhag parcio yn agos at y fynedfa i'r Neuadd yn sgîl pryderon diogelwch diweddar a leisiwyd gan rieni yr Ysgol Feithrin a defnyddwyr eraill y Neuadd sy'n wynebu anawsterau wrth geisio troi i'r chwith wrth adael maes parcio'r Neuadd; anodd yw gweld yn glir oherwydd y nifer o gerbydau llonydd ar ochr y ffordd. Anfonir copï o'r llythyr at yr Ysgol Feithrin, y Bont; Heddlu Dyfed-Powys ac Adran y Briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion.

**11.3 Dywedwyd bod unigolion** yn parcio ceir, gyda'r bwriad i'w gwerthu ar y Glas. PENDERFYNWYD arddangos arwydd yn gofyn i unigolion i ymatal rhag yr arfer hwn. Hefyd, mae cyflwr y Glas yn dirywio oherwydd ymddygiad modurwyr.

**11.4 Adroddwyd bod problemau'n** bodoli ar y ffordd ger Bron Deifi- tarmac yn ymddatod. i hysbysu CS Ceredigion.

**11.5 Cwrs Hyfforddi Diffibriliwr:** Trefnir cwrs pellach yn y dyfodol. Y Cyng Doug. Rowbotham i glustnodi sylw pellach i'r mater.

**11.6 Dywedwyd bod** bonion sigaréts a gwm cnoi wedi eu gwasgaru y tu allan i'r Llew Coch.

**11.7 Mae'r palmant gerllaw Rhifau** 3/4/5 a 6 Heol y Bannau yn anwastad. PENDERFYNWYD: Adrodd at sylw CSC.

**11.8 Mae draeniau a leolir yn** Stryd Teifi eto heb eu glanhau. i adrodd unwaith eto at sylw CSC.

**11.9 Mae problemau'n** bodoli ar y rhan o'r ffordd ar y fynedfa i Nant y Cŵn: i adrodd i'r CSC.

**11.10 PENDERFYNWYD cysylltu** â'r Gofrestrfa Tir i sefydlu perchnogaeth y darn o dir sy'n ymestyn o'r B4343 ger y bont y tu cefn i 1-16 Heol y Bannau, Ystafell Wen i Dolau Bach.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:55pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
**Dydd Iau 18 Chwefror, 2016 am 7.00pm.**

**===================================================== ===**
***(Llofnod / Dyddiad)***